

## 2018 Rhif 392 (Cy. 69)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr  
A40/A449 (Man i'r gorllewin o  
Langrwyne, Powys i Raglan, Sir  
Fynwy a Rhaglan hyd at y ffin  
rhwng Cymru a Lloegr, Sir Fynwy)  
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau  
Traffig Dros Dro) 2018

*Gwnaed* 20 Mawrth 2018

*Yn dod i rym* 26 Mawrth 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A40/A449 Casnewydd i Gaerwrangon a Cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40/A449 (Man i'r gorllewin o Langrwyne, Powys i Raglan, Sir Fynwy a Rhaglan hyd at y ffin rhwng Cymru a Lloegr, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 26 Mawrth 2018.

---

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
  - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
  - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 26 Mawrth 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd/cefnffyrdd” (“*the trunk road(s)*”) yw Cefnffordd yr A40/A449 Casnewydd i Gaerwrangon a Chefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 5.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 3, 5 a 6.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw

gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4, 5 a 6.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, ac eithrio cerbyd esempt, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4, 5 a 6 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol.

### **Atal Dros Dro**

8. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2, 3, 4, 5 a 6 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

### **Cymhwyso**

9.—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

20 Mawrth 2018

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd ar yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r de ar yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darn cyfan o'r gilfan sydd â'i ganolbwynt 240 o fetrau i'r gorllewin o drosbont Penpergwm.

Y darn cyfan o'r gilfan sydd â'i ganolbwynt 330 o fetrau i'r dwyrain o danffordd Hardwick Lane.

Y darn cyfan o'r gilfan sydd â'i ganolbwynt 470 o fetrau i'r dwyrain o danffordd wasanaethu Dobson's Farm.

#### **ATODLEN 2**

##### **Terfyn Cyflymder o 50 mya Dros Dro**

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at bwynt 105 o fetrau i'r de-orllewin o borth deheuol Twnelau Gibraltar.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 271 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Dixton hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.

#### **ATODLEN 3**

##### **Terfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro**

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 219 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at Glangrwyney Court hyd at bwynt 134 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Red Barn Road.

#### **ATODLEN 4**

##### **Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd**

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 219 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at Glangrwyney Court hyd at bwynt 135 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Hardwick.

#### **ATODLEN 5**

##### **Terfyn Cyflymder 50 mya, neu 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd**

Y darn hwnnw o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 384 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt tanffordd Dobson's Farm hyd at ganolbwynt trosbont yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r de ar yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

#### **ATODLEN 6**

##### **Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd**

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.